Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

11 Mehefin 2020

Annwyl Lesley

**Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020**

Ystyriodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020 (y Gorchymyn) ar 4 Mai 2020 a gosododd ei adroddiad yr un diwrnod. Daeth ymateb Llywodraeth Cymru i law ar 15 Mai, ac felly ar ôl gosod ein hadroddiad. O'r herwydd, trafodwyd yr ymateb yn ein cyfarfod ar 1 Mehefin.

Yn ein cyfarfod ar 8 Mehefin, ystyriwyd ymateb Llywodraeth Cymru ymhellach ac, yn ein barn ni, mae materion sy'n haeddu eglurhad pellach o hyd.

Gwyddoch fod y Gorchymyn yn caniatáu i gyflogwr sy'n darparu tŷ i weithiwr amaethyddol am wythnos gyfan ddidynnu'r swm o £1.50 o gyflog y gweithiwr amaethyddol sy'n daladwy am yr wythnos honno. Pan fydd cyflogwr yn darparu llety arall i weithiwr amaethyddol, fodd bynnag, gall y cyflogwr ddidynnu £4.82 o gyflog y gweithiwr amaethyddol am bob diwrnod y darperir y llety.

Roedd yr ail bwynt adrodd technegol yn ein hadroddiad yn nodi:

> "Mae angen esboniad pellach ynghylch pam mae erthygl 15 o'r Gorchymyn yn gosod didyniadau cyflog gwahanol iawn y caniateir eu gwneud mewn cysylltiad â gweithwyr amaethyddol sy'n manteisio ar lety. (…)
>
> Mae'n syndod y gall gweithiwr amaethyddol y darperir tŷ preifat hunangynhwysol iddo gynnal didyniad o £1.50 yr wythnos yn unig er mwyn byw yn y tŷ hwnnw. Fodd bynnag, caiff gweithiwr amaethyddol a gaiff y budd llai o wely mewn llety a rennir yn

> unig gynnal didyniad o £24.10 yr wythnos (ar sail wythnos waith pum diwrnod). Mae angen ymateb y llywodraeth i esbonio'r anghysondeb hwn o ran didyniadau. Rydym yn nodi y codwyd y pwynt hwn yn ein hadroddiad ar Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018 hefyd ond ni roddodd ymateb y Llywodraeth esboniad llawn am yr anghysondeb ar yr achlysur hwnnw."

Ni dderbyniwyd y pwynt adrodd ac roedd ymateb Llywodraeth Cymru yn nodi:

> "Pan fo'n ofynnol i weithiwr amaethyddol fyw mewn tŷ annedd neu lety arall hunangynhwysol yn rhinwedd ei gontract gwasanaeth er mwyn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn briodol neu'n well, mae budd i'r naill ochr a'r llall. Darperir tŷ neu lety hunangynhwysol arall sydd o fudd i'r gweithiwr amaethyddol, ac mae o fudd i'r cyflogwr fod y gweithiwr amaethyddol yn byw ar y safle. Mae erthygl 15(1) yn gwneud darpariaeth i ddidynnu'r swm nominal o £1.50 i gydnabod y budd hwn i'r naill ochr a'r llall.
>
> Mae'r ddarpariaeth yn erthygl 15(2) yn cydnabod bod llety arall yn cael ei ddarparu er anghyfleuster ac am gost ychwanegol i'r cyflogwr, tra'n sicrhau hefyd nad yw'r gweithiwr amaethyddol yn wynebu costau llety dyddiol gormodol. Mae'r gweithiwr amaethyddol yn rhydd i dderbyn y dewis o lety arall yn unol ag erthygl 15(2) ac yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth yn erthygl 15(3) a (4), neu i ddod o hyd i'w lety ei hun."

Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at lety a ddarperir "ar y safle". Rydym wedi nodi bod "tŷ" wedi'i ddiffinio yn y Gorchymyn fel tŷ y mae'n ofynnol i'r gweithiwr amaethyddol fyw ynddo "er mwyn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn briodol neu'n well". Nid yw'r Gorchymyn yn nodi, fodd bynnag, bod yn rhaid i'r tŷ fod 'ar y safle'. At hynny, nid yw Erthygl 15 o'r Gorchymyn, sy'n nodi'r didyniadau a ganiateir, yn cyfeirio at dŷ 'ar y safle'.

Felly mae'n ymddangos bod anghysondeb rhwng yr hyn y mae'r Gorchymyn yn ei ddweud a'r hyn y mae ymateb Llywodraeth Cymru yn ei ddweud.

Byddem yn croesawu eglurder ar y mater penodol hwn, a chadarnhad ynghylch a oes angen diwygio'r Gorchymyn a'i Femorandwm Esboniadol. Mae hyn yn bwysig oherwydd, yng ngoleuni ymateb Llywodraeth Cymru, rydym yn pryderu y gall y bobl y mae'r Gorchymyn yn effeithio arnynt fod yn ddryslyd ynghylch ei gwmpas a'i fwriad, ac felly sut mae'r gyfraith yn gymwys iddynt.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol ac at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Yn gywir

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.